CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 6ed o Hydref 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Llinos Davies, Julie Charlton, Enid Cole.
Cynghorydd Sir: Cyng. Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Alwyn Evans, Robin Phillips

Cofnodion 06.10.15.
Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Llinos Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
46. Llythyr Wil Thomas, Llys y Bryn, Eglwyswrw, ynglyn a'r dwr sydd yn aros ar y rhewl tu allan I Llysybryn hefyd rhigolau/gullies eisiau gwagio. Mae'r Cyng. Keith Lewis dal yn edrych ar y sefyllfa.

Gohebiaeth
47. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs Davies, Plas Y Coed, Eglwyswrw – Cais ar gyfer tŷ annedd 2 lawr gyda porth ceir. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais yma.
48. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs M. Watkins, Penpedwast, Eglwyswrw – Cais ar gyfer adnewyddu a ymestyn bwthyn. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais yma.
49. Gwybodaeth Mind Sir Benfro – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fydd y gwybodaeth yn yr hysbysfwrdd.
50. Cyngor Sir Benfro – Cais cynllunio Home Farm, Eglwyswrw – Llyhtyr I gadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn.
51. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs Rees, Nany Y Coed, Eglwyswrw – Rhan o'r cais wedi ei dderbyn a rhan wedi ei wrthod.
52. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. N. Davies, Flat, Llain, Eglwyswrw – Cais ar gyfer newid I ddefnydd adeilad presennol ar gyfer cartref preswyl ar gyfer menter gwledig. Roedd pawb yn hapus I gefnogi'r cais. Clerc I gysylltu gyda cyngor Sir Benfro.
53. Cyfanswm yn y banc 25.9.15 £3,387.28
54. GIG Cymru – Gwybodaeth ynglyn a Grwp Prosiect Iechyd Meddwl. Clerc I gysylltu gyda GIG Cymru er mwyn trefnu cyfarfod cyhoeddus os yn addas.
55. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais cynllunio Gelli Pontyglasier. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn.

Unrhyw Fater arall
56. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Andrea Hilger a Alexander Christof, Kleine Sperlgasse 1/26, 1020 Wien, Austria – Eisiau ymestyn caniatad cynllunio am 5 mlynedd arall yn Glanyrafon, Brynberian. Pawb yn hapus I gefnogi'r cais.

57. Awdit Blynyddol – Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Julie Charlton fod pawb yn hapus gyda'r canlyniad. Anfoneb o £96.00 I'w dalu.
58. Dwr ar y ffordd Temple Gate – Mae'r dwr dal ar y ffordd ac Mae'r Cyng Keith Lewis dal yn edrych ar y sefyllfa.

59. Dangosodd Ieuan Davies ei pryder ynglyn a dwr sydd ar y ffordd rhwng Ger Y Llyn a Felin Gigfran – Cyng Keith Lewis yn edrych mewn i'r sefyllfa.
60. Dangosodd Julie Charlton ei phryder ynglyn a coed ar ochr y ffordd ger Penfeidr, Brynberian. Fe fydd Cyng Keith Lewis yn edrych ar y sefyllfa.
61. Cyfarfod Mis Rhagfyr – Fe drafodwyd newid y dyddiad ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr. Fe fydd hyn yn cael ei gadarnhau yn y cyfarfod nesa.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 3ydd o Dachwedd am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 9.15y.h.